

Creu Datganiad Hygyrchedd

Diweddarwyd yn fwyaf diweddar: 4 Medi 2020

Cam 1 - Asesu eich gwefan

Defnyddiwch y Rhestr Wirio Gwefan i asesu eich gwefan. Cofnodwch unrhyw elfennau nad ydynt yn bodloni'r gofynion. Os ydych chi'n defnyddio adnodd sy'n rhoi gwybod i ba safon mae'r diffyg yn berthnasol, nodwch hyn. Mae'n bosib hefyd y byddwch yn cael adroddiad ar hygyrchedd eich gwefan gan archwilydd hygyrchedd Funnelback os yw'n rhan o brif wefan y Brifysgol.

Deunyddiau Cyfeirio

[Rhestr Wirio Archwilio Gwefan](#)

[Adnoddau Hygyrchedd Digidol](#)

Cam 2 - Dewiswch restr o'r meysydd sy'n gweithio'n dda ar y wefan

Nodwch rhai meysydd lle mae'r wefan yn gweithio'n dda. Gallwch ddefnyddio'r enghreifftiau isod, ond gwnewch yn siŵr eich bod chi wedi cadarnhau bod yr enghreifftiau hyn yn wir mewn perthynas â'ch gwefan:

Fe ddylech chi allu:

newid lliwiau a ffontiau

chwyddo'r dudalen hyd at 300% heb i'r testun gael ei wthio oddi ar y sgrin

symud drwy'r rhan fwyaf o'r wefan gan ddefnyddio dim ond bysellfwrdd

symud drwy'r rhan fwyaf o'r wefan gan ddefnyddio meddalwedd adnabod

lleferydd

gwrando ar y rhan fwyaf o'r wefan gyda darllenydd sgrin

Cam 3 - Lluniwch restr o'r meysydd nad ydynt yn bodloni'r safonau

O'ch nodiadau yng ngham 1, mae angen i chi greu rhestr o'r problemau i gyd gan gynnwys i ba safon mae pob un o'r problemau'n berthnasol. Efallai yr hoffech ddefnyddio taenlen i gasglu'r data ac yna ei throï'n frawddegau/paragraffau yn nes ymlaen. Gallech gynnwys y penawdau canlynol ar eich taenlen:

- Problem (e.e. Nid oes testun amgen ar gyfer rhai delweddau.)
- Pam fod hyn yn broblem (e.e. Golyga hyn nad yw'r wybodaeth yn y delweddau ar gael i bobl sy'n defnyddio technoleg gynorthwyol.)
- Y safon berthnasol (e.e. Nid yw hyn yn bodloni maen prawf llwyddo 1.1.1 (Cynnwys nad yw'n Destun) Canllawiau Hygyrchedd Cynnwys Gwefannau (CHCG) 2.1.
- Cynllun gwella (e.e. Pan fyddwn yn cyhoeddi cynnwys newydd, byddwn yn gwneud yn siŵr bod y delweddau i gyd yn cynnwys testun amgen (oni bai eu bod yno yn addurn yn unig). Byddwn yn gweithio ein ffordd drwy'r safle, gan ychwanegu testun amgen priodol i ddelweddau. Rydym yn dysgu ein golygyddion cynnwys i sicrhau eu bod yn creu cynnwys sy'n hygyrch.)

Ar gyfer pob problem crëwch baragraff sy'n ei hegluro a pham nad yw'n bodloni safon benodol. Er enghraifft:

Nid oes testun amgen i'w weld ar gyfer rhai delweddau. Golyga hyn nad yw'r wybodaeth yn y delweddau ar gael i'r bobl sy'n defnyddio technoleg gynorthwyol. Nid yw hyn yn bodloni maen prawf llwyddo 1.1.1 (Cynnwys nad yw'n Destun) CHCG 2.1. Pan fyddwn yn cyhoeddi cynnwys newydd, byddwn yn gwneud yn siŵr bod y delweddau i gyd yn cynnwys testun amgen (oni bai eu bod yno fel addurn yn unig). Byddwn yn gweithio ein ffordd drwy'r safle, gan ychwanegu testun amgen priodol i ddelweddau. Rydym yn dysgu ein golygyddion cynnwys i sicrhau eu bod yn creu cynnwys sy'n hygyrch.

Os oes llawer o broblemau, efallai yr hoffech eu rhannu'n categorïau, e.e. Penawdau, Delweddau, Dolenni, ac ati.

Deunyddiau Cyfeirio

[Canllawiau Hygyrchedd Cynnwys Gwefannau \(CHCG\) 2.1](#)

[Rhestr Wirio CHCG 2 WebAIM](#)

Cam 4 - Nodwch rywfaint o broblemau y gellir eu crynhoi'n rhwydd

Nodwch rai o'r gwahanol broblemau a ganfuwyd yng nghanam 3 y gellir eu crynhoi'n rhwydd mewn pwyntiau bwled. Defnyddir y rhain ar brif dudalen y datganiad hygyrchedd lle byddwch yn crybwyll rhywfaint o'r meysydd diffygiol mewn iaith syml. Efallai yr hoffech ddiweddarau eich taenlen er mwyn ychwanegu colofn i ddynodi'r materion yr ydych chi wedi eu dewis.

Cam 5 - Ystyriwch a oes arnoch chi angen datgan 'baich anghymesur'

Edrychwch ar eich rhestr o broblemau i weld a fyddai unrhyw un ohonynt yn anodd iawn i'w chywiro. Ystyriwch a fyddai'r ymdrech angenrheidiol i gywiro'r broblem yn drech na'r budd fydd yn deillio ohono. Os ydych chi'n teimlo nad oes llawer o fudd ond bod y gost (o ran adnoddau, amser neu arian) yn uchel iawn, mae'n bosib y gallwch ddatgan 'baich anghymesur'. Os felly, cofnodwch y broblem, a chasglu tystiolaeth i gyfiawnhau eich penderfyniad.

Cam 6 - Lluniwch restr o'r meysydd sydd tu allan i gwmpas y ddeddfwriaeth

Mae'n bosib y bydd rhywfaint o'r cynnwys ar eich gwefan y tu allan i gwmpas y ddeddfwriaeth, e.e. dogfennau neu fideos hŷn. Gwnewch restr o'r math o gynnwys ar eich safle y gellid ei gategoreiddio yn y modd hwn. Er enghraifft:

Mae llawer o'n dogfennau PDF a Word hŷn nad ydynt yn bodloni'r safonau hygyrchedd. Nid yw'r rheoliadau hygyrchedd [yn gofyn ein bod yn cywiro PDFs na dogfennau eraill a gyhoeddwyd cyn 23 Medi 2018](#) os nad ydynt yn hanfodol er mwyn darparu ein gwasanaethau.

Nid yw'n fwriad gennym ychwanegu capsiynau i fideos byw gan fod fideos byw wedi [eu heithrio rhag bodloni'r rheoliadau hygyrchedd](#).

Deunyddiau Cyfeirio

[Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff Sector Cyhoeddus \(Gwefannau a Chymwysadau Symudol\) \(Rhif 2\) 2018 - manylion ynglŷn â lle mae'r ddeddfwriaeth yn berthnasol.](#)

Cam 8 - Gosodwch eich data yn nhempled y Datganiad Hygyrchedd

[Dylai eich templed](#) fod yn 2 ffeil. Bydd angen i chi osod data eich gwefan yn lle'r testun sydd wedi ei amlygu'n felyn.

1. Datganiad Hygyrchedd (prif dudalen).docx

- a. Enw'r wefan
- b. URL y wefan
- c. Rhestr o'r meysydd lle mae'r wefan yn gweithio'n dda (o Gam 2)
- ch. Rhestrwch rai o'r problemau ar eich gwefan mewn ieithoedd syml (o Gam 4)
- d. Lleoliad tudalen gyswllt eich gwefan

2. Datganiad Hygyrchedd Technegol.docx

- a. Rhestr o'r meysydd lle nad yw'r wefan yn cydymffurfio (o Gam 3)
- b. Rhestr o'r meysydd lle'r ydych yn datgan baich anghymesur (o Gam 5) (os yn berthnasol)
- c. Manylion am gynnwys ar eich gwefan nad yw'n dod o fewn cwmpas y rheoliadau (o Gam 6) (os oes cynnwys o'r fath)
- ch. Crynodeb o'r hyn yr ydych chi'n ei wneud i wella hygyrchedd (o gynlluniau gwella Cam 3)
- d. Y dyddiadau y cafodd y datganiad ei greu a'i adolygu
- dd. Y dyddiad y cafodd y wefan ei hasesu a manylion sylfaenol am y ffordd y gwnaed hynny

Cam 9 - Crëwch dudalennau gwe ar gyfer eich

Datganiad Hygyrchedd

Sylwer: os bydd eich datganiad yn y system rheoli cynnwys, bydd angen i chi fod yn Gymedrolwr er mwyn creu adrannau newydd. Os mai Cyfrannwr ydych chi, gofynnwch i Gymedrolwr eich helpu.

- Crëwch dudalen ar gyfer y cynnwys o'r 'Datganiad Hygyrchedd' (prif dudalen).
- Crëwch is-dudalen ar gyfer y cynnwys o'r 'Datganiad Hygyrchedd Technegol'
- Gludwch gynnwys y dogfennau priodol ar y tudalennau priodol.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwirio eich dolenni cyswllt, e.e. y ddolen gyswllt o'r brif dudalen i'r datganiad technegol.

Cam 10 - Cyfieithwch eich Datganiad Hygyrchedd

Mae llawer o'r testun wedi ei gyfieithu eisoes yn y ffeiliau templed, ond bydd angen i chi gyfieithu rhywfaint o'r cynnwys rydych chi'n ei ychwanegu, e.e. y rhestr o feysydd lle nad yw'r wefan yn cydymffurfio, neu'r rhestr o feysydd lle rydych yn datgan baich anghymesur. Os byddwch yn anfon y dogfennau cyfan i'r Uned Gyfieithu, cofiwch grybwyll mai dim ond y rhannau sydd wedi eu hamlygu'n felyn sydd angen eu cyfieithu.